OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 872 (Cy. 86)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *31 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mai 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 61, 66 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2014 a deuant i rym ar 1 Mai 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006**

**2.** Yn Atodlen 2 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**2**) (darparu gwasanaethau: unedau o weithgaredd deintyddol ac unedau o weithgaredd orthodontig), ym mharagraff 1, ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

> "(3) Where a patient is referred by the contractor for advanced mandatory services to another provider of primary dental services, the appropriate number of units of dental activity provided by—
>
> (a) that contractor; and
>
> (b) the other provider of primary dental services, if that provider is also a contractor,

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2006/490 (Cy. 59).

must be calculated on the basis of the components of the course of treatment which they actually provide, notwithstanding that the treatment constitutes a single banded course of treatment for charging purposes.".

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006**

**3.** Yn Atodlen 2 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**3**) (darparu gwasanaethau: unedau o weithgaredd deintyddol ac unedau o weithgaredd orthodontig), ym mharagraff 1, ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) Where a patient is referred by the contractor for advanced mandatory services to another provider of primary dental services, the appropriate number of units of dental activity provided by—

(a) that contractor; and

(b) the other provider of primary dental services, if that provider is also a contractor, must be calculated on the basis of the components of the course of treatment which they actually provide, notwithstanding that the treatment constitutes a single banded course of treatment for charging purposes.".

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

31 Mawrth 2014

(**3**) O.S. 2006/489 (Cy. 58).

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau Contractau GDS") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau Cytundebau PDS").

Mae rheoliadau 2 a 3 yn diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Contractau GDS ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cytundebau PDS, mewn perthynas â dyrannu unedau o weithgaredd deintyddol rhwng contractwyr pan atgyfeirir claf am driniaeth orfodol uwch. Yr effaith yw sicrhau nad yw'r cyfrifiad o'r unedau o weithgaredd deintyddol y mae pob contractwr yn ymgymryd ag ef, ac felly y telir iddynt amdano, ond yn ymwneud â'r gweithgaredd deintyddol y maent yn ymgymryd ag ef mewn gwirionedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.